

PWYLLGOR CYNLLUNIO
27 HYDREF 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mercher, 27 Hydref 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Bithell, Derek Butler, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Ted Palmer, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

YMDDIHEURIAD: Y Cynghorydd Bernie Attridge

HEFYD YN BRESENNOL:

Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth- Strategaeth, Arweinydd Tîm- Cynllunio, Swyddogion Cynllunio, Uwch Beiriannydd- Rheoli Datblygu Priffyrdd, Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

26. DATGAN CYSYLLTIAD

Ar eitem 6.2 (061842) y rhaglen, dywedodd y Cynghorydd Gladys Healey, yn dilyn cyngor cyfreithiol yn ymwneud â'i sylwadau yn yr adroddiad, y byddai'n siarad fel Aelod lleol yn unig ac na fyddai'n cymryd rhan yn y bleidlais.

27. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd cyn y cyfarfod a oedd wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan y Cyngor:

<https://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4991&LLL=1>

28. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2021 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Richard Lloyd a Ted Palmer eu cynnig a'u heilio.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

29. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio unrhyw eitem.

30. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)

PENDERFYNWYD:

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'i dangosir ar yr amserlen Ceisiadau Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

31. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Ar ddechrau'r cyfarfod, nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a gorffennodd am 3.35pm)

.....
Y Cadeirydd

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gwe-ddarlledu a gellir eu gwyllo trwy'r llyfrgell o we-ddarllodiadau ar: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 27 HYDREF 2021

EITEM	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE/ CYNNIG	SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELOD LLEOL	PENDERFYNIAD
060696	Cyngor Cymuned Gwernymynydd	Cais Amlinellol ar gyfer 28 o anheddu ar dir yn Llys Newydd, Ffordd Rhuthun, Gwernymynydd	Siaradodd Victoria Norman, fel Cynghorydd Cymuned, yn erbyn y cais.	Gwrthod y caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad.
061842	Cyngor Cymuned yr Hôb	Cais llawn- Newid defnydd tir ar gyfer 2 lain teithwyr yn cynnwys 2 floc amwynder/ ystafelloedd dydd (ôl- weithredol yn rhannol) ar dir ger 'Brier Lodge', Bryn Rhyddyn, Caergwrle, Wrecsam, Sir y Fflint	Siaradodd Dale May, preswlydd lleol, yn erbyn y cais. Siaradodd Trevor Mennell, yr Asiant, o blaid y cais. Siaradodd y Cynghorydd Gladys Healey, fel Aelod Ward Lleol, yn erbyn y cais, ond ni phleidleisiodd.	Gwrthod y caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad y swyddog, ar y seiliau canlynol: (i) effaith ar gefn gwlad agored a (ii) y tu allan i ffin anheddiad.

EITEM	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE/ CYNNIG	SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELOD LLEOL	PENDERFYNIAD
063320	Cyngor Tref Saltney	Caniatâd Hysbysebu- Codi ac arddangos arddangosiad LED digidol maint 48 dalen ar ei draed ei hun ym Mharc Manwerthu St. David, Stryd Fawr, Saltney	Siaradodd Barrie Gregory, Cynghorydd Tref, yn erbyn y cais.	Gwrthod y caniatâd cynllunio yn groes i argymhelliad y swyddog, ar y seiliau canlynol: (i) tynnu sylw ar groesffyrdd prysur gan beryglu diogelwch gyrwyr/ cerddwyr (ii) effaith niweidiol ar gymdogion a chyflwr y dref gyfagos (iii) diffyg angen am arwydd nad yw o fudd i fusnesau lleol.
063104	Cyngor Tref Cei Connah	Cais Llawn- Codi gwaith nweiddio datblygedig a datblygiad cysylltiedig ar dir oddi ar ffordd Weighbridge, Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy	Siaradodd Howard Jones, yr Asiant, o blaid y cais.	Caniatáu caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog.